Pam fod yr awdur yn ysgrifennu at y person hwn? Meddyliwch pa un o'r rhain sydd fwyaf addas:

- i gael ei gydymdeimlad;
- i anghytuno â fo:
- i gael ei gytundeb;
- i'w annog i weithredu.

Cyfiawnhewch eich dewis!

Annwyl gynghorydd,

Gofyn am gymorth ydw i. Fel trethdalwr cydwybodol rydw i'n cyfrannu fy nhreth cyngor yn brydlon ac felly dylwn fod yn gallu mwynhau'r cyfleusterau prin sy'n cael eu darparu gan y cyngor.

Siom o'r mwyaf, felly, oedd ymweliad â pharc y dref yr wythnos hon. Does gen i ddim gwrthwynebiad i berchnogion cŵn fynd â'u hanifeiliaid am dro yma, ond ddylai hynny ddim amharu ar fwynhad eraill. Mae rhai perchnogion cŵn diegwyddor a diofal yn gadael baw eu cŵn o gwmpas y parc i unrhyw un roi ei draed ynddo.

Mae ysgarthion cŵn yn cario heintiau fel tocsacoriasis sy'n gallu achosi i bobl golli eu golwg. Mae mwy na 500,000 o gŵn yng Nghymru, ac maent yn cynhyrchu mwy na 80 tunnell o ysgarthion. Os yw'r baw yn cael ei adael ar y llawr ac yn cael ei sathru mae'n cyrraedd swyddfeydd, siopau a thai ac yn gwasgaru'r perygl. Os yw'n cael ei roi yn y geg mae'r parasit sydd ynddo'n medru peri salwch difrifol. Mae plant yn chwarae yn y parc. Dydy hi ddim yn deg iddynt gael eu peryglu fel hyn. Mae'n debyg bod mwy na hanner yr achosion difrifol o tocsicariasis yn digwydd mewn teuluoedd nad ydynt wedi cadw ci erioed!

Gellir dirwyo perchnogion cŵn hyd at £1,000 am adael carthion eu cŵn ar y llawr. Wn i ddim am neb sydd wedi cael ei gosbi erioed! Mae'n hen bryd i'r cyngor weithredu'r bygythiadau a gwneud esiampl o berchnogion diegwyddor. Mae'n bryd i ni gael gwerth o'n treth cyngor!

Yn gywir ond yn flin,

Mrs E Williams

Pa eiriau eraill allai'r awdur fod wedi'u dewis yn lle'r rhain?

Pa fath o ysgrifennu sydd yma? Sut ydych chi'n gwybod? Gallwch drafod ffurf a bwriad y darn.



Sut mae'r awdur yn teimlo? Beth yn y darn sy'n awgrymu hynny i chi?

Pa mor effeithiol yw'r nodweddion arddull mae'r awdur wedi'u defnyddio yma?

**Cynlluniwch ateb y cynghorydd i Mrs. Williams.**